Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Dim cynlluniau ar gyfer ad-drefnu Llywodraeth Leol na rhoi'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus i'r sector preifat

Wrth annerchu cynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 23 Mehefin, sicrhaodd Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, nad yw Llywodraeth Cymru yn credu mai'r sector preifat sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Rhoddwyd llawer o bwyslais ar y ffaith mai awdurdodau lleol a fydd yn darparu gwasanaethau drwy gydweithio â'i gilydd ac â chynghorau tref a chymuned, y gwasanaethau iechyd, yr heddlu a'r gwasanaethau tân yn ogystal â chyrff cyhoeddus eraill.

Roedd y Gweinidog hefyd yn cytuno'n gryf â'r farn yn yr adroddiad *Lleol, rhanbarthol, cenedlaethol: pa wasanaethau a gyflenwir ble*, a gyflwynwyd gan Joe Simpson o Arweinyddiaeth Llywodraeth Leol yn gynharach eleni. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar sut y caiff gwasanaethau llywodraeth leol eu trefnu, ac '..ar yr angen am newid wrth i fwy o swyddogaethau, neu rannau o wasanaethau, gael eu trefnu'n rhanbarthol ac yn genedlaethol'. Diben gweithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol yw darparu gwasanaethau gwell am gost is.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn cytuno 'y dylai newid ddigwydd drwy gydweithio yn hytrach nag ad-drefnu gan fod angen sicrhau bod craidd ein gwasanaethau yn parhau i gael eu trefnu'n lleol. Mewn cymunedau lleol y gellir datblygu cysylltiad â dinasyddion yn llwyr, lle gellir arfer arweinyddiaeth gymunedol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i integreiddio gwasanaethau'.

Cytunodd Mr Sargeant ag adroddiad Simpson, sef nad oedd ganddo ddim cynlluniau i ad-drefnu llywodraeth leol yn gyfrwys, ond y byddai'n defnyddio'r pwerau sylweddol y gwnaeth eu sicrhau drwy'r Mesur Llywodraeth Leol yng nghyswllt awdurdodau lleol nad ydynt yn darparu gwasanaethau digonol i'w dinasyddion.

Aeth yn ei flaen i ddileu'r sibrydion ei fod yn ystyried gohirio etholiadau llywodraeth leol y flwyddyn nesaf. Byddant yn cael eu cynnal fis Mai 2012 yn ôl y bwriad, a mynegodd y Gweinidog ei ddymuniad o ddenu'r bobl orau a'r rhai mwyaf galluog at wleidyddiaeth leol.

Mewn datganiad cynharach a gyhoeddwyd ar 21 Mehefin, dywedodd y Gweinidog fod 'uwch strwythur presennol y 22 o awdurdodau lleol yn anghynaliadwy ac yn hen. Sut rydym yn cyfiawnhau cost cynifer o Brif Weithredwyr ac uwch swyddogion pan mae gwasanaethau rheng flaen dan fygythiad?' Yng nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ailadroddodd ei bwynt ynghylch yr angen i benodi uwch staff ar y cyd.

Dywedodd y Cynghorydd Davies, arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru: 'Gofynnwyd i'r Llywodraeth Leol gyflwyno "cynnig mawr" ar gysyniad y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gwasanaethau: yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cyfrannu'n helaeth iawn at y drafodaeth hon, ac rydym yn cefnogi'r dull hwn yn llwyr. Gallaf ddweud yn hyderus fod yr agenda cydweithio yn bwrw ymlaen yn gyflym ar draws llawer o gynghorau yng Nghymru sy'n annog trawsnewid drwy fyrddau rhanbarthol, rheoli prosiectau a grwpiau gwasanaethau ar y cyd.'

Ond ychwanegodd y Cynghorydd Davies: 'Fy marn i am gydweithio yw os nad yw'n pasio'r prawf o ran darparu gwasanaeth gwell neu arbed adnoddau, peidiwch â'i wneud. Rhaid ystyried cydweithio fel ffordd o ychwanegu gwerth ac nid fel llwybr i'w gymryd ar bob cyfrif.'

I gael rhagor o wybodaeth am araith a datganiad y Gweinidog, ac i weld adroddiad Joe Simpson, ewch i dudalennau gwe llywodraeth leol Llywodraeth Cymru, http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/?lang=cy

Prif Weithwredwr Tenovus i annerch cynhadledd gyllido WCVA

Ym mhrif sesiwn lawn cynhadledd gyllido'r trydydd sector yng Nghymru eleni, bydd Claudia McVie yn siarad am yr heriau a'r cyfleoedd codi arian sydd ar gael yn yr hinsawdd sydd ohoni, ac am rôl y Prif Swyddog Gweithredol o ran codi arian.

Cynhadledd gyllido WCVA yw prif ddigwyddiad cyllido blynyddol Cymru, ac eleni bydd yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd ar 11 Hydref. Mae'r gynhadledd wedi'i bwriadu ar gyfer ymddiriedolwyr, prif weithredwyr, pobl sy'n codi arian ac unrhyw un arall sy'n poeni am gyllid ei fudiad.

Yn ogystal â siaradwyr ysbrydoledig yn y sesiwn lawn, ceir 24 o weithdai gan gynnwys llawer o gyfleoedd i glywed yn uniongyrchol gan elusennau am eu dulliau codi arian llwyddiannus:

- David Griffiths o Tŷ Hafan am redeg loteri lwyddiannus;
- Anna Evans o Ambiwlans Awyr Cymru am ddatblygu partneriaethau corfforaethol llwyddiannus;
- Deniz Hassan o Merlin am droi cefnogwyr ar-lein yn rhoddwyr;
- Tim Finch o Tenovus am redeg siopau elusen llwyddiannus;
- Simi Epstein o'r Hosbis Plant Hope House am ddatblygu strategaeth codi arian cymunedol;
- Allan McLaren o Barnardos am ddatblygu dull codi arian corfforaethol llwyddiannus; a
- Maddy Eastwood o Gartref Cŵn a Chathod Battersea am Farchnata Uniongyrchol.

Mae'r gweithdai'n cwmpasu wyth ffrwd ariannu: codi arian cymunedol; codi arian corfforaethol; arloesedd; unigolion; ymddiriedolaethau a sefydliadau; statudol; Loteri; a masnach.

Mae'r uchafbwyntiau eraill yn cynnwys gwrando ar dîm Ewropeaidd trydydd sector WCVA (3-SET) a WEFO yn trafod Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru ar ôl 2013; y Gronfa Loteri Fawr yn trafod cyfleoedd cyllido yn ogystal â gwerthuso a hyrwyddo; ac ymddiriedolaethau a sefydliadau gan gynnwys Santander, Comic Relief, Plant mewn Angen y BBC a Lloyds TSB.

Bydd cyfle hefyd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am fondiau effaith gymdeithasol gan Alisa Helbitz o Social Finance ac am dendro gan Dawn Rowley o DHR Interim a Gareth Coles o WCVA.

Bydd timau Cyllid Cynaliadwy WCVA Cymru, Cymru'n Rhoi, 3-SET a Better Bids ar gael i ddelio â'ch ymholiadau cyllido yn y farchnad gyllido a fydd yn rhoi lle i fwy o amrywiol arddangoswyr nag erioed.

Meddai Eileen Kinsman, cydlynydd rhaglen y gynhadledd: 'Rwy'n fodlon iawn â rhaglen y gynhadledd eleni. Rydym wedi llwyddo i ddod â rhai o'r bobl orau am godi arian yng Nghymru at ei gilydd i rannu eu hanesion ysbrydoledig ac rydym hefyd wedi rhoi'r cyfle i chi gwrdd â'r holl brif bobl sy'n codi arian yng Nghymru.'

I gadw eich lle am ddim ond £85, ffoniwch Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu e-bostio eventsadmin@wcva.org.uk.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr Atodiad Cenedlaethol gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Prif Swyddfa - Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH, elusen gofrestredig rhi 218093, cwmni cyfyngedig drwy warant 425299, wedi ei gofrestru yng Nghymru.